



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar  
Ysgol Gymunedol Twynyrodyn**

**Gilfach Cynon  
Twynyrodyn  
Merthyr Tudful  
CF47 0LW**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2011**

**gan**

**Mr Merfyn Lloyd Jones**

**O dan gytundeb i  
Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor  
Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Twynyrodyn wedi ei lleoli yn nhref Merthyr a chaiff ei chynnal gan awdurdod lleol Merthyr Tudful (ALI). Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed. Mae wedi ei lleoli mewn ardal sydd yn cael ei herio'n gymdeithasol ac yn economaidd gyda 37% o'i disgyblion ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru a 14% yn derbyn prydau ysgol am ddim. Yr ysgol yw'r pedwerydd uchaf o'r ysgolion caiff eu herio fwyaf yn ei theulu o ysgolion. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn gartref i ganolfan adnoddau dysgu yr ALI ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 sydd ag anawsterau dysgu cymedrol. Daw bron yr holl ddisgyblion o gefndiroedd lle mae'r Saesneg yn brif iaith. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i chwech o'r disgyblion.

Ar hyn o bryd, mae 284 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 52 sydd yn mynychu'r meithrin yn y boreau a'r prynhawniau. Dengys asesiadau gwaelodlin fod cyrhaeddiad ar fynediad i'r ysgol yn cymharu'n dda gyda chyfartaleddau lleol. Mae 63 o ddisgyblion (26%) wedi eu dynodi fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Ni dderbyniodd unrhyw ddisgybl waharddiad tymor penodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r pennaeth ar secondiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) ac ar hyn o bryd mae'r ysgol yng ngofal y dirprwy bennaeth. Cafodd yr ysgol ei harolygu diwethaf yn 2005.

Yn 2010-11, mae cyllideb ysgol unigol fesul disgybl Ysgol Twynyrodyn yn £3256, sydd yn cymharu gydag uchafswm o £6431 ac isafswm o £3035 ar gyfer ysgolion cynradd ym Merthyr Tudful. Mae cyllideb fesul disgybl yr ysgol y 17<sup>eg</sup> uchaf allan o'r 25 o ysgolion cynradd ym Merthyr Tudful.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Rhagorol</b>

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae bron yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai llai galluog, yn gwneud cynnydd da yn y rhan fwyaf o feysydd;
- ansawdd uchel y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd sydd yn arwain at safonau rhagorol o ran lles y disgyblion;
- mae'r addysgu yn dda ac mae'r disgyblion yn elwa oddi wrth gwricwlwm diddorol; a
- chyfranogiad tra effeithiol disgyblion yn y broses o wneud penderfyniadau.

### Rhagolygon gwella

Mae gan yr ysgol rhagolygon rhagorol ar gyfer gwelliant oherwydd:

- parodrwydd arweinwyr ar bob lefel i gynnwys y disgyblion wrth wneud penderfyniadau;
- derbyngarwch yr ysgol i ffyrdd newydd ag arloesol i wella ei darpariaeth; a
- cymuned dysgu broffesiynol hynod effeithiol o fewn yr ysgol a thu hwnt.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, dylai'r ysgol:

- A1 codi safonau mewn Cymraeg fel ail iaith yng nghyfnod allweddol 2 a datblygu medrau dwyieithog disgyblion ymhellach ar draws yr ystod oedran;
- A2 datblygu ymhellach y cydlynid o'r medrau allweddol o lythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh); a
- A3 sicrhau fod y cyswllt rhwng hunan arfarnu a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella deilliannau yn eglur.

### ***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd yr ysgol yn cynhyrchu cynllun gweithredu bydd yn dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Da**

### **Safonau: Da**

Mae bron yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni'n dda yn y rhan fwyaf o feysydd yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn erbyn y prif ddangosyddion yn cymharu'n dda gydag ysgolion mewn sefyllfaoedd tebyg a chyrhaeddiad blaenorol y disgyblion.

Yn 2010, mae asesiadau statudol athrawon yn dynodi fod 78.1% o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn cyflawni'r dangosydd pynciau craidd (DPC), hynny yw, y lefel 2 disgwylidig yn y tri phwnc o Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cymhariaeth a chyfartaledd y teulu o 82.7% a'r cyfartaledd cenedlaethol o 81.6%. Yn yr un flwyddyn yng nghyfnod allweddol 2, cyflawnodd 76.9% o'r disgyblion y DPC ar lefel 4 neu'n uwch mewn cymhariaeth â chyfartaledd y teulu o 78.9% a'r cyfartaledd cenedlaethol o 78.2%.

Mae'r perfformiad ar y lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 1 yn 2010 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac ymhlith yr uchaf yn y teulu mewn Saesneg a mathemateg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel uwch yr uchaf yn y teulu mewn Saesneg a gwyddoniaeth.

Mae'r gwahaniaeth ym mherfformiad y bechgyn a'r merched yn 2010 yn y ddau gyfnod allweddol yn fwy na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae ystyriaeth o'r data dros y tair blynedd diwethaf yn dynodi fod perfformiad yn gyffredinol yn y ddau gyfnod allweddol yn erbyn y DPC yn uwch na chyfartaleddau'r teulu, yr ALI a'r rhai cenedlaethol. O'i chymharu gydag ysgolion sydd â nifer tebyg o ddisgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, mae perfformiad yn y ddau gyfnod allweddol, yn erbyn y DPC yn gyffredinol yn yr 50% uchaf.

Dros yr un cyfnod mae nifer y disgyblion sydd yn cyrraedd y lefelau uwch mewn Saesneg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2 yn gyson uwch na ffigurau'r teulu, yr ALI a'r rhai cenedlaethol.

Yn gyffredinol, mae perfformiad y merched yn well na pherfformiad y bechgyn. Yn gyffredinol, yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r gwahaniaeth yn adlewyrchu'r darlun yn genedlaethol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda yn erbyn targedau personol ac yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu, eu diddordebau a'u cyrhaeddiad blaenorol. Mae disgyblion oddi fewn i'r uned adnoddau dysgu yn cyflawni'n dda. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu.

Adroddiad ar Ysgol Gymunedol Twynrodyn  
Mawrth 2011

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da iawn, yn ymgartrefu'n gyflym i drefniadaeth yr ysgol ac yn gynyddol yn dod yn ddysgwyr hyderus. Mewn perthynas â'u hoed a'u gallu, gwna llawer o'r disgyblion gynnydd da yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adalw eu dysgu blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi dysgu mewn llawer o bynciau. Mae llawer yn gallu cymhwysu eu medrau'n dda i sefyllfaoedd newydd gan ddangos hyder cynyddol wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol.

Mae'r cynnydd a wneir gan y mwyafrif o ddisgyblion wrth ddatblygu amrediad eang o fedrau yn dda. Bron yn ddieithriad, mae disgyblion yn gwrando'n dda ac mae'r rhan fwyaf yn siarad yn hyderus iawn mewn gwahanol sefyllfaoedd. O fewn yr ystod eang o alluoedd disgyblion, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn gymwys. Mae hyn yn eu galluogi i gyrchu gwybodaeth ar lefelau priodol o ddealltwriaeth a'i ddefnyddio i gefnogi a gwella eu dysgu mewn amrywiaeth o bynciau. Ar draws yr ysgol, gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion ddefnydd effeithiol o'u medrau ysgrifennu i wahanol ddibenion ac mewn gwahanol arddulliau, gyda hyder cynyddol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau TGCh sydd wedi eu datblygu'n dda. Defnyddia'r disgyblion hyn y medrau hyn yn effeithiol iawn i geisio a chwilio am wybodaeth i gefnogi eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio eu medrau meddwl yn hyderus a phwrpasol mewn llawer o sefyllfaoedd dysgu. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion wedi datblygu medrau datrys problemau da. Maent yn trefnu eu gwaith yn rhesymegol ac yn dod i gasgliadau synhwyrol.

Yn gyffredinol, mae medrau disgyblion yn yr iaith Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 1 yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall ac yn ymateb yn dda i amrediad o gwestiynau a chyfarwyddiadau syml. Mae llawer yn darllen ac ysgrifennu testunau syml gyda hyder a chywirdeb cynyddol ac mae gan y rhan fwyaf ynganiad da. Mae safon y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2 yn ddigonol. Ym mlynnyddoedd 3 a 4, mae medrau llafar disgyblion yn datblygu'n dda ond mae cynnydd llawer o ddisgyblion ym mlynnyddoedd 5 a 6 yn araf. Nid yw eu gallu i ddarllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg wedi datblygu cystal. Mae gallu llawer o ddisgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac o amgylch yr ysgol yn gyfyng iawn. Yn gyffredinol, mae ymwybyddiaeth disgyblion o hanes a diwylliant Cymru yn dda.

### **Lles: Rhagorol**

Mae gan ddisgyblion ymagweddau cadarnhaol a realistig iawn tuag at fabwysiadu dulliau iachus o fyw, gan gynnwys ymarfer yn rheolaidd a bwyta bwydydd iachus. Dengys bron yr holl ddisgyblion ymagweddau cadarnhaol iawn tuag at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf yn gwrtais, yn fonheddig gyda moesau da. Mae eu hymddygiad yn dda iawn. Mae gan y rhan fwyaf ddiddordeb yn eu gwaith, yn cynnal eu canolbwytiaid ac yn ymroi i'w tasgau yn frwdfrydig. Nodwedd arbennig o dda yw eu gallu i rannu, cymryd eu tro, gweithio gyda'i gilydd ac yn synhwyrol mewn grwpiau.

Mae'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai yn yr uned adnoddau, yn chwarae rhan lawn a gweithredol ym mywyd yr ysgol. Mae hyn yn helpu datblygu'r ymdeimlad cryf o gynhwysiad a pherthyn sydd yn amlwg yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain ac â chydymdeimlad am

Adroddiad ar Ysgol Gymunedol Twynrodyn  
Mawrth 2011

anghenion pobl eraill. Arddangosant y rhinweddau hyn yn arbennig o dda yn eu gwaith a'u chwarae.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd ag amrywiaeth o gyfrifoldebau megis eu rolau cyflafareddu. Maent yn ymgymryd â'u dyletswyddau gyda hunanhyder, aeddfedrwydd ac ymdeimlad o falchder. Dywed yr holl ddisgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ysgol. Mae ganddynt gryn hyder yn yr oedolion ac yn gwerthfawrogi'r gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a rhoddir ganddynt.

Ar draws yr ysgol mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth benderfynu beth a sut maent yn dysgu ac mae gan lawer ddealltwriaeth dda o ba mor dda maent yn ei wneud a'r hyn sydd angen iddynt wneud er mwyn gwella eu gwaith. Mae hyn yn arbennig o wir mewn iaith.

Nodwedd ragorol yw'r modd caiff llawer o ddisgyblion eu cynrychioli trwy amrediad o bwyllgorau ac wedi bod yn gyfrifol am lawer o ddatblygiadau yn yr ysgol. Mae hyn yn gryfder arbennig. Mae llawer yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau cymunedol. Cânt eu paratoi'n dda ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol.

Mae data presenoldeb yn dynodi fod perfformiad yr ysgol o 93.29% yn unol â chyfartaledd Cymru gyfan. Mae bron yr holl ddisgyblion yn brydlon.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd y profiadau dysgu yn dda. Mae'r athrawon yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu diddorol oddi fewn a thu hwnt i'r ysgol. Mae profiadau dysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgogol a llawn dychymyg. Caiff gofynion y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2, gan gynnwys addysg grefyddol, eu diwallu'n dda.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gyffredinol dda. Mae cyfleoedd i ddatblygu medrau cyfathrebu a gwranddo yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh yn dda ac mae cyfleoedd wedi eu cynllunio'n dda i ddatblygu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau tymor hir ar gyfer datblygu medrau rhifedd, llythrennedd a TGCh eto wedi eu datblygu'n llawn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn agwedd sydd yn datblygu yn yr ysgol ond nid yw'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth wedi ei ddatblygu'n dda. Mae'r cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth disgyblion o'r dimensiwn Gymraeg yn dda.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol. Cyfrannir at hyn gan bartneriaethau llwyddiannus gydag ysgolion yn Qatar a Zanzibar ynghyd â phwyllgor eco a monitoriaid eco gweithgar.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu'n dda. Mae'r amrediad o ddulliau a strategaethau addysgu

Adroddiad ar Ysgol Gymunedol Twynrodyn  
Mawrth 2011

yn ysgogi diddordeb y disgyblion ac mae cyflymder llawer o'r gwersi yn gyson briodol. Mae cynlluniau tymor byr athrawon yn ffocysu'n effeithiol ar fedrau disgyblion ac yn dynodi amcanion dysgu eglur.

Mae'r drefniadaeth dosbarth yn effeithiol a darperir ystod o gyfarpar ac adnoddau defnyddiol. Mae arddangosfeydd lliwgar, deniadol ac ysgogol yn y dosbarthiadau, sydd yn hyrwyddo'r dysgu'n dda. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae tasgau'n briodol i anghenion y disgyblion. Caiff cefnogaeth oedolion ei ddefnyddio'n dda yn ystod gweithgareddau gwersi a gwnânt gyfraniad arwyddocaol i'r dysgu.

Mae trefniadau asesu'n dda, wedi eu gwreiddio'n dda ac mae'r disgyblion yn fedrus wrth ddatblygu meini prawf llwyddiant ar gyfer gwersi. Mae disgyblion yn asesu dysgu eu hunain a dysgu eu cymheiriaid yn effeithiol. Bellach, mae system ar-lein arloesol sydd yn caniatáu disgyblion i hunan asesu a darparu tystiolaeth ar gyfer cyflawniad mewn lle ond hyd yn hyn heb gael effaith ar safonau. Mae'r adborth i ddisgyblion yn effeithiol ac yn galluogi disgyblion i ddeall yr hyn sydd angen iddynt wneud er mwyn gwella.

Mae'r adroddiadau i rieni yn diwallu'r gofynion statudol ac mae'r wybodaeth briodol mewn lle. Dywed y rhieni a'r gofawlwr eu bod yn derbyn gwybodaeth eglur am gynnydd eu plant.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel. Mae'r trefniadau ar gyfer cefnogi lles y disgyblion yn rhagorol ac yn gadarn. Mae ymroddiad yr ysgol i ddatblygiad moesol a chymdeithasol yn nodweddiadol. Mae'r Rhaglen Cefnogi Myfyrwyr yn darparu lefel uchel o gefnogaeth i'r disgyblion. Caiff iechyd a lles y disgyblion eu hannog, gan gynnwys ymarfer rheolaidd a bwyta'n iach. Ceir darpariaeth briodol ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion trwy addoli ar y cyd, lle darperir cyfleoedd i'r disgyblion i fyfyrion ar eu credoau eu hunain.

Mae disgyblion a rhieni yn gallu cyrchu ystod eang o wybodaeth ddefnyddiol trwy wefan yr ysgol ac mae cyfleoedd i ymestyn y dysgu ar gael trwy 'Moodle'.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelwch.

Mae'r ysgol yn sicrhau darpariaeth dda ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a chaiff disgyblion sydd angen help ychwanegol eu dynodi'n effeithiol. Mae'r cynorthwyrwyr dysgu yn darparu cefnogaeth o ansawdd dda i'r disgyblion hyn oddi fewn a thu allan i'r dosbarth. Mae'r ysgol yn defnyddio gwasanaethau arbenigol yn briodol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn y ganolfan adnoddau dysgu yn dda ac mae nifer o ddisgyblion yn integreiddio'n llwyddiannus i'r dosbarthiadau prif ffrwd ar gyfer rhai gwersi.



### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cadarnhaol iawn lle caiff amrywiaeth ei gydnabod a'i werthfawrogi. Mae disgyblion yn dysgu am ddiwylliannau a chredoau sydd yn wahanol i'w rhai nhw ac yn arddangos ymagweddau goddefgar tuag at ei gilydd. Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau priodol mewn lle i sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion.

Gwneir defnydd effeithiol o amrediad da o adnoddau dysgu ac addysgu. Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd yn diwallu anghenion y dysgwyr yn effeithiol. Mae'r ardaloedd tu allan, yr ardd, safon uchel yr arddangosfeydd ar y muriau, yn darparu amgylchedd ddysgu ysgogol i'r disgyblion. Mae'r safle a'r adeilad o ansawdd uchel iawn ac yn darparu ystafelloedd da ar gyfer y nifer o ddisgyblion sydd ar y gofrestr.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan arweinwyr yr ysgol weledigaeth eglur gaiff ei gyfathrebu'n effeithiol i'r staff, rhieni a disgyblion. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn darparu ymdeimlad eglur o gyfeiriad ac yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer eu hunain ac eraill. Maent wedi sefydlu diwylliant sydd yn ymdrechu ar gyfer gwelliant. Ceir ethos cadarnhaol iawn, gyda'r holl staff, llywodraethwyr a'r rhieni yn cefnogi gwerthoedd yr ysgol er lles y plant. Mae'r holl staff sydd â rolau arweinyddol yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn gadarn ac yn cael eu cyflawni'n effeithlon. Mae'r broses yn dynodi targedau addas ar gyfer gwelliant sydd yn cael eu cydweddu'n dda i weithgareddau datblygiad proffesiynol.

Mae'r llywodraethwyr yn cyflawni eu goblygiadau statudol ac yn cefnogi'r ysgol yn dda. Maent yn wybodus am berfformiad y disgyblion a sut mae hyn yn cymharu â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg eraill. Mae'r llywodraethwyr yn cymryd rhan gynyddol ym mhrosesau hunan arfarnu'r ysgol megis monitro ac arfarnu safonau. Mae'r corff llywodraethu wedi mabwysiadu gweithdrefn cwynion priodol ac yn sicrhau caiff hwn ei egluro'n briodol i'r rhieni.

Mae'r ysgol yn dderbyngar i syniadau newydd ac yn awyddus iawn i geisio ffyrdd newydd ac arloesol i wella ei darpariaeth. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi eu sefydlu'n llwyddiannus iawn. Mae'r ysgol ar y blaen mewn llawer o ddatblygiadau cenedlaethol megis gweithredu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, ymestyn cyfranogiad disgyblion ac wrth ddatblygu cymunedau dysgu proffesiynol. Caiff yr ysgol ei defnyddio'n aml fel enghraifft i eraill.

### **Gwella ansawdd: Da**

Yn gyffredinol, mae'r broses hunan arfarnu a chynllunio datblygiad yn dda. Mae ymdriniaeth ysgol-gyfan eglur tuag at hunan arfarnu sydd yn tynnu ar weithdrefnau sicrhau ansawdd rheolaidd. Nodwedd arbennig yw'r rôl mae disgyblion yn chwarae yn y broses. Caiff eu hargymhellion eu hystyried o ddifrif ac mae hyn wedi datblygu hyder yn y disgyblion i gyflwyno eu syniadau sydd wedi dylanwadu ar newidiadau.

Adroddiad ar Ysgol Gymunedol Twynrodyn  
Mawrth 2011

Mae'r adroddiad hunan arfarnu, er yn gynhwysfawr a manwl, yn dueddol o fod yn ddisgrifiadol yn hytrach nag arfarniadol ac felly, mewn rhannau, mae diffyg arfarniadau eglur a chryno ar ddeilliannau. Er bod yr ysgol yn dynodi rhai meysydd pwysig ar gyfer datblygiad, nid yw'r cyswllt rhwng yr adroddiad hunan arfarnu a gynhyrchwyd cyn yr arolygiad â'r blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol bob amser yn eglur.

Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus wrth ymdrin â'r holl argymhellion yn yr adroddiad ar yr arolygiad diwethaf, fodd bynnag, nid yw'r gwelliannau mewn Cymraeg fel ail iaith wedi eu gwireddu'n llawn.

Mae'r gymuned dysgu hynod effeithiol oddi fewn yr ysgol a thu hwnt yn nodwedd ragorol. Mae hyn yn galluogi'r staff i ddatblygu a rhannu ymdriniaethau arloesol at ddysgu ac addysgu ac i ymestyn eu gwybodaeth broffesiynol yn bwrpasol a llwyddiannus. Mae staff a disgyblion yr ysgol yn rhannu eu harfer da gydag eraill yn rheolaidd. Caiff yr agwedd yma o waith yr ysgol effaith arwyddocaol ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar les y disgyblion yn benodol.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol amrediad da o bartneriaethau, sydd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at brofiadau dysgu'r disgyblion. Mae staff yn cymryd rôl arweiniol wrth ddatblygu arferion gweithio ar y cyd ac maent wedi sefydlu partneriaethau cynhyrchiol iawn oddi fewn i'r teulu lleol o ysgolion a'r ysgol uwchradd gyfagos. Caiff ymroddiad yr ysgol i ddatblygu Rhith-amgylchedd Ddysgu a defnyddio adnoddau ar-lein ei gydnabod gan eraill yn y clwstwr, yr ALI a thu hwnt.

Mae'r ysgol yn ymroi'n llawn i Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion LICC. Mae hyn yn cynnwys datblygu ymroddiad y disgyblion yn y Pwyllgor Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'r cynllun Cenhadon Disgyblion sydd yn cefnogi gwaith y Fforwm Ieuenctid.

Mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau eithriadol o dda gyda rhieni, unigolion a sefydliadau yn y gymuned leol. Gwelir yr ysgol fel rhan annatod o fywyd cymunedol yr ardal gan ddarparu amrediad o drefniadau cyn ac ar ôl ysgol. Mae wedi cyflawni statws Buddsoddwyr mewn Pobl, yn darparu cefnogaeth ar gyfer Prosiectau Dysgu fel Teulu mewn llythrennedd a gwyddoniaeth ac wedi ei dyfarnu gyda'i hail wobwr 'Baner Werdd'. Mae'r ysgol wedi cyflawni gwobrwyon ysgol rhyngwladol ar lefel sylfaenol a chanolradd.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r rheolaeth o adnoddau'n dda. Mae gan yr holl athrawon yr wybodaeth a'r arbenigedd priodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r defnydd effeithiol o staff addysgu yn cyfrannu at ddatblygiad llwyddiannus o brofiadau dysgu disgyblion. Caiff staff cefnogi eu defnyddio'n effeithiol er mwyn sicrhau diwallu'r anghenion dysgu. Mae'r ysgol yn diwallu'r gofynion ar gyfer ailfodelu'r gweithlu a'r defnydd o amser cynllunio paratoi ag asesu. Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn perthnasu'n dda i'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant a lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r ariannu mae'n derbyn ac yn rhoi gwerth da am arian wrth sicrhau deilliannau da i'r disgyblion.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

#### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Dychwelwyd 15 o holiaduron rhieni, i gyd yn mynegi'r farn eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol. Roeddent oll yn cytuno fod eu plant yn hoffi ysgol, yn teimlo'n ddiogel ac yn ymgartrefu'n dda. Creda'r holl rieni fod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Dywedant fod y staff yn disgwyl i'w plant i weithio'n galed ac i roi o'u gorau. Dywed yr holl rieni fod plant yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol a chânt eu trin yn deg a chyda pharch. Dywed yr holl rieni fod y plant yn derbyn y gefnogaeth briodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. Creda'r holl rieni fod eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf. Creda'r rhan fwyaf o rieni y cânt eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant a'u bod yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio gyda chwynion. Creda'r holl rieni fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda neu yn dda iawn.

#### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd 116 o ddisgyblion yr holiadur. Dywedant oll eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod bron i gyd yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn pryderu neu'n gofidio. Maent bron i gyd yn credu fod yr ysgol yn delio â bwllian yn dda. Dywedant oll fod yr athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent bron i gyd yn dweud eu bod yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn cael y gwaith yn anodd. Creda'r holl ddisgyblion eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a chreda'r rhan fwyaf fod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith. Maent bron i gyd yn dweud fod ganddynt ddigon o lyfrau, cyfarpar a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Creda'r rhan fwyaf o ddisgyblion fod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith. Dywed llawer fod plant yn ymddwyn yn dda adeg chwarae ac amser cinio, ond roedd ychydig yn anghytuno.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

Mr Merfyn Lloyd Jones	Arolygydd Cofnodol
Mr Goronwy Morris	Arolygydd Tîm
Mr Gwynoro Jones	Arolygydd Lleyg
Mr Andrew Thorne	Arolygydd Cymheiriaid
Mrs Michelle Jones	Enwebai'r Ysgol

Contractwr:

EPPC/Severn Crossing Cyf, Swît F2A Tŷ Britannic, Ffordd Britannic, Llandarcy  
Castell-nedd SA10 6JQ

Adroddiad ar Ysgol Gymunedol Twynyrodyn  
Mawrth 2011

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn  
([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategoriâu penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

### Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11